Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

# Grwpiau Ffocws Rhieni 2020/21

Crynodeb o'r materion a godwyd gan aelodau'r Grŵp Ffocws Rhieni – Tymor yr Hydref 2020

Dyddiad cyfarfod y Cyfnod Sylfaen, 3/12/20

Rhieni oedd yn bresennol: Michelle Burchell, Helen Gibbons, Abi Hobson, Ceri Metcalfe, Sara Morgan,

Staff oedd yn bresennol: Mrs Southgate, Miss Richards, Miss White, Mrs Parkhouse & Mr Scourfield

1. Mae rhieni yn ddiolchgar iawn i'r staff am eu gwaith ers mis Medi yn cadw disgyblion yn ddiogel ac am gynnal elfen o normalrwydd yn ystod cyfnod anodd iawn i bawb.
2. Dywedodd llawer o rieni pa mor effeithlon oedd y Nosweithiau Rhieni diweddar (a gynhaliwyd ar MS Teams) a gofynnodd nifer petai modd ystyried symud y cyfarfodydd ar-lein yn barhaol.
   Ymateb: Er bod y staff addysgu'n cytuno bod y Nosweithiau Rhieni wedi mynd yn dda iawn, gyda rhieni yn cadw at apwyntiadau 10 munud, rhieni yn gallu mynychu gyda'i gilydd ayyb, roedd rhai yn awyddus i ddychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Efallai y gellid mabwysiadu dull cyfunol yn y dyfodol, gyda rhieni'n cael cynnig opsiynau a nosweithiau ar wahân yn cael eu trefnu er mwyn diwallu anghenion pawb. Anfonir holiadur yn y flwyddyn newydd yn gofyn am eich barn ar y pwnc hwn.
3. Mae'n ymddangos bod anghysondeb yng nghynnwys tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol, gyda llawer mwy o gynnwys gyda rhai dosbarthiadau nag eraill.
   Ymateb: Er bod athrawon unigol yn cael eu hannog i roi eu stamp eu hunain ar eu tudalennau dosbarth, disgwylir i gynnwys a safon gyffredinol y tudalennau hyn fod yn gyson ar draws yr ysgol. Bydd y tudalennau yn cael eu monitro yn y flwyddyn newydd a newidiadau'n cael eu gwneud yn unol â hynny.
4. Roedd llawer o rieni am ddiolch i'r staff am safon uchel y gwaith Dysgu Cartref a baratowyd yn ddiweddar yn ystod cyfnod hunanynysu eu plant.
   Ymateb: Cafodd llawer o waith ei wneud gan y staff yn gynharach eleni wrth baratoi ar gyfer dysgu cartref/ar-lein yn ystod y cyfnod cloi cychwynnol, ac yn dilyn adborth gan ddisgyblion, rhieni a staff, gwnaed nifer o newidiadau a

Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

gwelliannau ers hynny. Dydy dysgu cartref/ar-lein ddim yn gallu efelychu'r profiadau y mae disgyblion yn eu cael yn yr ysgol, ond mawr obeithiwn bod y ddarpariaeth bellach mor hygyrch ac effeithlon â phosibl.

5. Oes unrhyw gynlluniau i drefnu Noson Rieni i ddisgyblion y Meithrin?
   Ymateb: Er y byddai cynnal Noson Rieni i'r 100 o ddisgyblion sy'n mynychu'r Meithrin yn rhoi baich annheg ar Mrs Southgate a Mrs Dando, gallwn edrych ar ffyrdd eraill o rannu cynnydd disgyblion gyda'u rhieni. Rydym yn gobeithio y bydd Noson Sgiliau y Meithrin, a gynhelir yn flynyddol ym mis Chwefror, yn mynd yn ei blaen, ond yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
6. Mae rhai rhieni wedi mynegi pryder bod ambell i ddosbarth wedi bod heb gymorth Cynorthwyydd Addysgu yn ddiweddar.
   Ymateb: O ganlyniad uniongyrchol i'r pandemig, rydym wedi wynebu prinder staff digynsail dros y mis diwethaf ac mae hyn wedi golygu bod yn rhaid i'r ysgol fod yn hyblyg o ran staffio. Er y bu adegau lle na fu'n bosibl cael cynorthwyydd addysgu yn y dosbarth, mae pob dosbarth wedi bod o dan oruchwyliaeth athro/awes a dydy diogelwch na lles ein disgyblion wedi cael eu peryglu ar unrhyw adeg. Gobeithio y bydd y sefyllfa hon yn gwella yn y flwyddyn newydd a gellir dychwelyd i normalrwydd.
7. Unwaith eto, mae nifer cynyddol o rieni wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â safon y ffotograffau unigol diweddar gan Colorfoto.
   Ymateb: Er bod yr ysgol wedi ei chontractio i Colorfoto am weddill y flwyddyn hon, byddwn yn cysylltu â darparwyr eraill ac yn edrych ar bob opsiwn cyn gwneud penderfyniad ynghylch pa gwmni i ddewis ar gyfer 2021/22.
8. Pam nad yw disgyblion wedi derbyn mwy o gyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored y tymor hwn a beth gellir gwneud i annog dysgu yn yr awyr agored, e.e. oes modd i 'Ffrindiau YGG Pontybrenin' ariannu mwy o ddillad gwrth-ddŵr a/neu ystafell ddosbarth awyr agored?
   Ymateb: Er bod rhai dosbarthiadau wedi defnyddio'r warchodfa natur yn fwy nag eraill y tymor hwn, mae nifer o resymau dros hyn, e.e. glaw trwm, mwyafrif y dosbarth heb eu 'wellies', materion cynaliadwyedd coetir ayyb. Prynodd y 'Ffrindiau' digon o ddillad gwrth-ddŵr (o wahanol feintiau) llynedd i 140 o ddisgyblion ac mae'r buddsoddiad hwn wedi ein galluogi ni i fynd allan i'r awyr agored ym mhob tywydd. Fodd bynnag, ni all disgyblion rannu dillad ar hyn o bryd oherwydd y pandemig a chredaf y byddai'n anghyfrifol gwario dros £3300 ar brynu dillad gwrth-ddŵr unigol ar gyfer pob disgybl, pan allwn ddychwelyd at rannu'r eitemau hyn cyn gynted ag y bydd y pandemig ar ben. O ran prynu ystafell ddosbarth awyr agored, mae hyn yn amhosib gan fod adnoddau a strwythurau y warchodfa natur / maes chwarae yn cael eu fandaleiddio a'u dinistrio o ganlyniad i bobl ifanc sy'n chwarae yn yr ardaloedd hyn gyda'r nos. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ategu dysgu cyffredinol a bydd yr ysgol yn parhau i wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod ein disgyblion yn cael mynediad rheolaidd i'r amgylchedd dysgu hwn.
9. Nid yw disgyblion y Cyfnod Sylfaen bellach yn derbyn llaeth yn rhad ac am ddim yn yr ysgol. Oes cynlluniau i ailgychwyn hyn?
   Ymateb: Penderfynodd yr awdurdod lleol atal darparu llaeth am ddim ar

Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

ddechrau pandemig y coronafeirws. Ein bwriad yw ailddechrau'r ddarpariaeth cyn gynted ag y bydd hi'n ddiogel gwneud hynny.

10. Mae disgyblion sy'n bwyta cinio ysgol yn cael dewis o bwdin neu ffrwythau ar ôl eu pryd bwyd, ond mae'r mwyafrif yn mynd i ddewis y pwdin bob tro. Oes modd iddyn nhw gael y ddau?
    Ymateb: Er bod yr ysgol yn addysgu disgyblion am bwysigrwydd byw bywyd iach ac yn hyrwyddo arferion bwyta da, nid ein lle ni yw dweud wrth ddisgyblion beth i ddewis o'r fwydlen cinio ysgol. Ar hyn o bryd mae'r fwydlen yn caniatáu i ddisgyblion ddewis naill ai ffrwythau neu bwdin, ond os yw rhieni am herio hyn, mae croeso iddynt gysylltu ag adran arlwyo yr awdurdod lleol.

Dyddiad cyfarfod Cyfnod Allweddol 2 - 2/12/20

Rhieni oedd yn bresennol: Helen Gibbons a Chris Pinnington

Staff oedd yn bresennol; Miss Dark, Mr Sterl, Mrs Sartori, Mrs Parkhouse, Miss Gwenter & Mr Scourfield

1. Mae cyfathrebu'r ysgol â rhieni ers dechrau'r pandemig coronafeirws wedi bod yn wych, gyda phawb yn derbyn diweddariadau rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth lawn am ddatblygiadau;
2. Mae'r system ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion wrth gatiau'r ysgol wedi bod yn rhagorol.
   Ymateb: Mae llwyddiant y system hon yn deillio o barodrwydd rhieni, disgyblion a staff i gydweithio er mwyn sicrhau diogelwch pob aelod o gymuned yr ysgol. Diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus gyda hyn.
3. Dywedodd llawer o rieni pa mor effeithlon oedd y Nosweithiau Rhieni diweddar (a gynhaliwyd ar MS Teams) a gofynnodd nifer petai modd ystyried symud y cyfarfodydd ar-lein yn barhaol.
   Ymateb: Er bod y staff addysgu'n cytuno bod y Nosweithiau Rhieni wedi mynd yn dda iawn, gyda rhieni yn cadw at apwyntiadau 10 munud, rhieni yn gallu mynychu gyda'i gilydd ayyb, roedd rhai yn awyddus i ddychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Efallai y gellid mabwysiadu dull cyfunol yn y dyfodol, gyda rhieni'n cael cynnig opsiynau a nosweithiau ar wahân yn cael eu trefnu er mwyn diwallu anghenion pawb. Anfonir holiadur yn y flwyddyn newydd yn gofyn am eich barn ar y pwnc hwn.
4. Unwaith eto, mae nifer cynyddol o rieni wedi mynegi eu hanfodlonrwydd â safon y ffotograffau unigol diweddar gan Colorfoto.
   Ymateb: Er bod yr ysgol wedi ei chontractio i Colorfoto am weddill y flwyddyn hon, byddwn yn cysylltu â darparwyr eraill ac yn edrych ar bob opsiwn cyn gwneud penderfyniad ynghylch pa gwmni i ddewis ar gyfer 2021/22.

Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Heol Casllwchwr, Gorseinon, Abertawe SA4 6AU
Ffôn / Tel: 01792 894210
E-bost/E-mail: ygg.pontybrenin@swansea-edunet.gov.uk
Gwefan/Website: www.yggpontybrenin.com
Trydar / Twitter: @PontybreninYGG

Diolch i bawb a gyfrannodd sylwadau i'r fforymau hyn. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i fynd i'r afael â'r pryderon a fynegwyd gennych a gobeithiwn y byddwch yn sylwi ar y gwelliannau yn y meysydd hyn yn fuan. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i bryderu neu os oes gennych fwy o sylwadau neu awgrymiadau, cysylltwch â mi yn yr ysgol i'w trafod ymhellach.

Bydd y rownd nesaf o gyfarfodydd grwpiau ffocws rhieni yn cael eu cynnal yn ail hanner tymor y gwanwyn.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn diffuant,

Mr Ceri Scourfield
Pennaeth